



Ysgol Pendalar, Ffordd Bethel, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1DU
01286672141

bethanmorrisjones@gwynedd.llyw.cymru
www.ysgolpendalar.org

Dyddiad: 19/10/20

Annwyl Riant /Ofalwr

Gwybodaeth am achos wedi ei gadarnhau o'r coronafeirws yn Ysgol Pendalar

Rydym wedi cael gwybod bod achos o'r coronafeirws yn yr ysgol ac rydym wedi cysylltu gyda rheini/gofalwyr pawb sydd wedi bod mewn cysylltiad agos. **Nid yw eich plentyn yn un ohonynt.** Mi fydd y gwasanaeth Profi Orlhain a Diogelu hefyd yn cysylltu gyda phawb sydd wedi dod i gysylltiad agos.

Mae Ysgol Pendalar yn gweithio'n agos gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, yr Awdurdod Lleol a gwasanaeth Profi Orlhain a Diogelu GIG Cymru er mwyn sicrhau bod yr holl fesurau priodol ar waith i ddiogelu disgyblion, staff a'r gymuned ehangach. Mae'r gwaith nodi cysylltiadau yn digwydd ar hyn o bryd ac os ydi unrhyw un yn cael eu hadnabod fel **cyswilt ag achos a gadarnhawyd o COVID-19** bydd y tîm Profi Orlhain a Diogelu yn cysylltu â nhw. Fodd bynnag, cadwch lygad am unrhyw rai o symptomau COVID-19:

- Peswch newydd neu gyson
- Tymheredd uchel
- Colli synnwyr arogleuo neu synnwyr blasu, neu newid iddynt

Os bydd eich plentyn yn datblygu unrhyw un o'r symptomau hyn, hyd yn oed os na fyddant yn ddifrifol:

- Trefnwch brawf drwy ffonio 119 neu drwy fynd i'r porth ar-lein: <https://www.nhs.uk/ask-for-a-coronavirus-test>
- Rhowch wybod i Ysgol Pendalar eich bod yn teimlo'n anhwylyd gyda symptomau COVID-19 a'ch bod wedi gofyn am brawf
- Dylai eich plentyn hunan ynysu am 10 diwrnod o'r diwrnod y dechreuodd eich symptomau
- Dylai pawb arall sydd ar yr aelwyd ynysu am 14 diwrnod o'r adeg y datblygodd ei symptomau
- Peidiwch ag ymweld â meddygfa, fferyllfa nac ysbyty ond os bydd angen cyngor meddygol arnoch ffoniwch y GIG ar 111 neu ffoniwch eich meddyg teulu; os bydd argyfwng meddygol ffoniwch 999
- Dilynwch y cyngor a roddir pan fyddwch yn cael canlyniadau'r prawf

Er mwyn lleihau'r risg o ledaenu COVID-19, mae pethau y gall pawb yn eich teulu eu gwneud i helpu:

- golchi eich dwylo â dŵr a sebon yn aml, am o leiaf 20 eiliad
- defnyddio hylif diheintio dwylo os nad oes dŵr a sebon ar gael
- golchi eich dwylo cyn gynted ag y byddwch gartref
- gorchuddio eich ceg a'ch trwyn â hances neu eich llawes (nid eich dwylo) pan fyddwch yn peswch neu'n tisian
- rhoi hancesi yn y bin ar unwaith ar ôl eu defnyddio a golchi eich dwylo wedyn

Mae rhagor o wybodaeth am symptomau a hunan ynysu ar gael yma <https://llyw.cymru/gwiriad-olrhain-cysylltiadau-dyddiol-symptomau-canllawiau-chymorth>

Mae rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth Profi Orlhain Diogelu ar gael yma <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-coronafeirws>

I gael gwybodaeth gyffredinol am COVID-19 <https://llyw.cymru/amddiffyn-eich-hun-ag-eraill-rhag-y-coronafeirws>

Gall gwiriwr symptomau ar-lein COVID-19 ddweud wrthyhych a oes angen help meddygol arnoch a'ch cyngori ynghylch beth i'w wneud <https://llyw.cymru/oes-angen-help-meddygol-arnoch-am-y-coronafeirws>

Yn gywir iawn,

Bethan Morris-Jones